



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



PARTNERIAETH

At sylw:
Y Cyng. Darren Price
Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth

Gofynnwch am: Y Tîm Craffu
Rhif Ffôn y Swyddfa Craffu: 01792 637256
e-bost: craffu@abertawe.gov.uk
Dyddiad: 01/03/2023

Annwyl Gyngorydd Price

Grŵp Cyngorwyr Craffu Partneriaeth – 13 Chwefror 2023

Hoffai'r Grŵp Cyngorwyr Craffu ddiolch i Ian Altman, y Swyddog Arweiniol, Cressy Morgan, Ymgynghorydd Strategol a Helen Morgan Rees, y Cyfarwyddwr Arweiniol, am fod yn bresennol yn ein cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnem amdani, ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i gyfleu ein safbwyntiau o'r cyfarfod hwnnw.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Arweiniol sefyllfa ariannol Partneriaeth, gan roi dadansoddiad i ni o'r ffrydiau ariannu, gan gynnwys y cyllid grant, cyfraniadau'r awdurdodau lleol a'r cytundebau lefel gwasanaeth sydd ar waith. Sicrhodd y Panel hefyd fod y trefniadau llywodraethu yn gweithredu'n unol â'r cytundeb cyfreithiol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor, Craffu a chyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid.

Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed am yr adroddiad gwerthuso ac effaith sy'n cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd, gan ddeall y bydd yn amlinellu meysydd megis gwerth am arian Partneriaeth (hyd yn hyn), ac y bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin. Edrychwn ymlaen at weld hwn pan fydd ar gael. Nodwyd bod 28 aelod o staff bellach yn cael eu cyflogi gan Partneriaeth, sy'n sylweddol is na'r nifer a gyflogwyd gan ERW.

Adolygwyd hefyd y Gofrestr Risgiau, a nododd Ian Altman un gwelliant a oedd yn cryfhau'r sylw ynghylch blaenoriaeth un a'r risg uwch na fyddai ysgolion yn cael digon o gymorth i weithredu'r cwricwlwm newydd. Cafwyd trafodaeth, ac roeddem yn bryderus pan glywsom am y risg na fyddai cyllid grant Llywodraeth Cymru yn dod drwodd ar amser, oherwydd yn amlwg mae Partneriaeth yn dibynnu ar y grant hwn. Fodd bynnag, roedd clywed bod yr arian yn tueddu i ddod drwodd mewn modd amserol yn gysur mawr.

Mynegwyd pryder gennym am effaith dyfarniad cyflog llwyth gwaith Llywodraeth Cymru a'i effaith bosibl ar amser addysgu. Rydym yn deall nad oes unrhyw fanylion ar gael ar hyn o bryd, ond byddem yn gwerthfawrogi cael ein diweddaru wrth i hyn fynd rhagddo a chael gwybod am yr effaith bosibl y bydd yn ei chael yn ein hysgolion.

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr diwethaf, cytunwyd i gael diweddariad ar weithredu chwe blaenoriaeth allweddol Partneriaeth, un ym mhob un o'n cyfarfodydd. Yn y

cyfarfod hwn, dechreuwyd gyda Blaenoriaeth Un: Cwricwlwm ac Asesu, cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sydd â thegwch a rhagoriaeth yn greiddiol iddo sy'n gosod safonau uchel i bob dysgwr. Rhoddodd Cressy Morgan ac Ian Altman fanylion i ni am y cynnydd yn hyn o beth, gan gynnwys edrych ar y modd y mae'n llifo trwy'r Cynllun Busnes a'r cynnig Dysgu Proffesiynol. Trafodwyd pa mor llwyddiannus y bu'r gwaith clwstwr mewn rhai ardaloedd, a dangoswyd tair enghraifft o hyn i ni. Rydym yn cydnabod bod yna heriau gwahanol ar draws y clystyrau gwahanol, felly ni fydd un ateb yn addas i bawb, ac mae'n ymddangos mai cymysgedd o gymorth cyffredinol a chymorth pwrpasol sydd fwyaf effeithiol. Roeddem yn falch o glywed bod ymagwedd hyblyg ac ystyryth yn cael ei mabwysiadu wrth gefnogi pob clwstwr.

Roeddem hefyd am bwysleisio pwysigrwydd mynd â phob athro ar y daith i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd, gan gydnabod natur ragnodol yr hen gwricwlwm a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y Cwricwlwm Newydd, a allai fod yn heriol i rai sydd wedi arfer â'r hen system.

Roedd y Grŵp Cynghorwyr am gydnabod a diolch i staff Partneriaeth am eu gwaith caled wrth ddatblygu ethos gwaith tîm gyda'r ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Byddem yn croesawu eich barn ar gynnwys y llythyr hwn, ond ni fydd ymateb ysgrifenedig ffurfiol yn ofynnol ar yr adeg hon.

Yr eiddoch yn gywir,

Y Cynghorydd Lyndon Jones
Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth
Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk

Darperir Cymorth Craffu Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth gan Gyngor Abertawe
Cysylltu: Y Tîm Craffu, Ystafell Caerloyw, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE

☎ 01792 637256

✉ scrutiny@swansea.gov.uk